



DWP

Department for
Work and Pensions

Adran Gwaith
a Phensiynau

Adfer iechyd a diogelwch i bawb:

Adolygiad annibynnol o ddeddfwriaeth
iechyd a diogelwch
Crynodeb Gweithredol

Yr Athro Ragnar E Löfstedt
Tachwedd 2011

Rhagair

Annwyl Weinidog,

Ym mis Mawrth 2011, gofynnwyd i mi ymchwilio i'r posibilrwydd o leihau'r baich rheoleiddio o ran iechyd a diogelwch sydd ar fusnesau, gan sicrhau ar yr un pryd bod y cynnydd a wnaed o ran canlyniadau iechyd a diogelwch yn parhau.

Dros y chwe mis diwethaf rwyf wedi gofyn am farn amrywiaeth eang o sefydliadau, ac wedi astudio'r llenyddiaeth wyddonol sydd ar gael er mwyn ystyried, ar sail risg a thystiolaeth, a yw rheoliadau iechyd a diogelwch yn briodol neu a ydynt wedi mynd yn rhy bell.

Rwyf wedi dod i'r casgliad, yn gyffredinol, nad oes achos dros newid y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch gyfredol yn sylweddol. Mae'r rheoliadau yn gosod cyfrifoldebau ar y rhai sy'n creu'r risgiau yn bennaf, gan gydnabod mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut i'w rheoli a chaniatáu iddynt wneud hynny mewn ffordd gymesur. Credir yn gyffredinol bod y gofynion rheoleiddio presennol yn gywir ar y cyfan, a bod gan reoliadau ran i'w chwarae i atal anafiadau a salwch yn y gweithle. Yn wir, mae tystiolaeth i awgrymu y gall rheoli risgiau mewn ffordd gymesur fod yn beth synhwyrol i'w wneud o ran busnes.

Serch hynny, mae nifer o ffactorau yn gwneud i fusnesau fynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol o dan y rheoliadau a'r hyn sy'n gymesur ac rwyf wedi gwneud argymhellion i fynd i'r afael â'r rhai sy'n ymwneud â rheoliadau. Bydd y rhain yn galluogi busnesau i adfer eu rheolaeth dros iechyd a diogelwch ac ystyried iechyd a diogelwch yn rhan hanfodol o'u dull gweithredu yn hytrach nag ymarfer papur biwrocrataidd.

Diolchiadau

Casglwyd llawer o dystiolaeth ac rwy'n ddiolchgar i'r amrywiaeth eang o grwpiau a gyfrannodd, gan gynnwys academyddion, cyrff proffesiynol, busnesau unigol a chyrrff cynrychioliadol, cymdeithasau masnach, undebau llafur, grwpiau cymorth i ddioddefwyr, a nifer fawr o unigolion hyddysg yn y maes.

Rwyf yn arbennig o ddiolchgar i aelodau'r Panel Cyngori: John Armitt, Andrew Bridgen AS, Dr Adam Marshall, Andrew Miller AS a Sarah Veale CBE. Bu eu cyfraniadau heriol a defnyddiol yn hynod o werthfawr i mi drwy gydol y broses adolygu er mai fi sy'n gyfrifol am gynnwys terfynol yr adroddiad a'i argymhellion.

Diolch hefyd i'r tîm adolygu sydd wedi fy nghynorthwyo: Niklas Percival, Bahadır Ustaoglu a Helen Smith yn ogystal â'r cyngor a'r cymorth a gynigiwyd gan dîm Noddi Iechyd a Diogelwch yr Adran Gwaith a Phensiynau.



Yr Athro Ragnar E Löfstedt

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

1. Mae gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) tua 200 o reoliadau a 53 o Godau Ymarfer Cymeradwy (CYC) a'r rhain fu ffocws yr adolygiad hwn. Rwyf wedi canolbwyntio ar feysydd lle mae'r dystiolaeth a'r cyfraniadau i'm hadolygiad wedi dangos bod rheoliadau yn arwain at gostau diangen i fusnesau ond yn gwneud fawr ddim i wella canlyniadau iechyd a diogelwch.
2. Yn gyffredinol, nid y rheoliadau eu hunain yw'r broblem ond y ffordd y cânt eu dehongli a'u cymhwyso. Mewn rhai achosion diffyg cysondeb ymhlith rheoleiddwyr wrth orfodi'r rheoliadau sy'n gyfrifol am hyn ac mewn achosion eraill, dylanwad trydydd partïon sy'n annog busnesau i gynhyrchu gwaith papur diangen a chanolbwyntio ar weithgareddau iechyd a diogelwch sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion rheoleiddio sy'n gyfrifol. Weithiau gall y ddeddfwriaeth ei hun gyfrannu at y dryswch, drwy ei strwythur cyffredinol, drwy ddiffyg eglurder neu ddyblygu mewn rhai meysydd yn ôl pob tebyg.

Adolygu rheoliadau

3. Er bod cefnogaeth gyffredinol i reoleiddio iechyd a diogelwch, nid yw hynny'n golygu bod pob rheoliad yn helpu i greu gweithle sy'n fwy diogel ac iach. Gan weithio ar sail risg a thystiolaeth, rwyf wedi ystyried cwmpas y rheoliadau a'r ffordd y cânt eu cymhwyso ac wedi nodi rhai dyletswyddau y dylid eu dileu, eu diwygio neu eu hegluro er mwyn lleihau nifer y gofynion rheoleiddio nad ydynt yn gwneud fawr ddim i wella canlyniadau iechyd a diogelwch.

4. Cwestiwn pwysig i lawer yw p'un a ddylai deddfwriaeth iechyd a diogelwch fod yn berthnasol i bobl hunangyflogedig. Ar hyn o bryd mae'r DU yn mynd y tu hwnt i ofynion yr UE yn hyn o beth yn ogystal â rhai gwledydd eraill sydd ond yn cymhwyso deddfwriaeth i'r rhai sy'n gwneud gweithgareddau sy'n arbennig o beryglus neu sy'n peri risg o anaf neu niwed i eraill. Mae'n amlwg y dylai'r rheoliadau fod yn gymwys o dan amgylchiadau o'r fath, ond credaf fod achos dros eithrio'r bobl hunangyflogedig hynny nad yw eu gweithgareddau gwaith yn peri unrhyw niwed posibl i eraill.

Felly argymhellaf y dylai'r bobl hunangyflogedig hynny nad yw eu gweithgareddau gwaith yn peri unrhyw risg bosibl o niwed i eraill gael eu heithrio o gyfraith iechyd a diogelwch.

5. Ymhlith y rhai a ymatebodd i'r cais am dystiolaeth, roedd cefnogaeth sylweddol i'r amod 'i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol' a welir mewn llawer o ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch gan ei fod yn golygu y gellir rheoli risgiau mewn ffordd gymesur. Fodd bynnag, mae dryswch cyffredinol ynghylch beth y mae hyn yn ei olygu'n ymarferol ac mae llawer o fusnesau bach yn cael anhawster i'w ddehongli.
6. At hynny, mae enghreifftiau lle caiff rheoliadau a gynlluniwyd i fynd i'r afael â risgiau gwirioneddol eu hystyn i gynnwys risgiau dibwys, tra bod y gofyniad i gynnal asesiad risg wedi troi'n hunllef fiwrocrataidd i rai busnesau. Mae'r gofyniad cyfreithiol i gynnal asesiad risg yn rhan bwysig o broses rheoli risg ond yn hytrach mae busnesau yn llunio dogfennau hirfaith (neu'n talu am ddogfennau o'r fath) sy'n cynnwys pob risg bosibl, a hynny weithiau ar draul rheoli'r risgiau sylweddol sydd yn eu gweithle.
7. Felly mewn rhai achosion mae angen egluro beth yn union sydd ei angen o dan y rheoliadau, naill ai drwy adolygu geiriad y rheoliad neu drwy lunio canllawiau gwell. Gall Codau Ymarfer Cymeradwy (CYC) chwarae rhan bwysig. Fe'u hystyrir yn rhan hanfodol o'r system a gallant ddarparu enghreifftiau ymarferol o sut i gydymffurfio â'r gyfraith, sy'n golygu y gallant fod yn adnodd arbennig o werthfawr i fusnesau bach a chanolig. Ond mae rhai ohonynt yn hen ac yn rhy hir, technegol a chymhleth.

Felly argymhellaf y dylai HSE adolygu pob CYC. Dylid cwblhau cam cyntaf yr adolygiad erbyn mis Mehefin 2012 fel bod busnesau yn gwybod yn union beth sy'n cael ei gynllunio a phryd y gallant ddisgwyl unrhyw newidiadau.

Rheoliadau iechyd a diogelwch a'r UE

8. Mae'r cyfle i newid rheoliadau iechyd a diogelwch wedi ei gyfyngu'n sylweddol gan y gofyniad i weithredu cyfraith yr UE. Mae llawer o'r rheoliadau iechyd a diogelwch sy'n gymwys i fusnesau yn rhoi Cyfarwyddbau'r UE ar waith. Yn ôl un astudiaeth, daeth 41 o'r 65 o reoliadau iechyd a diogelwch newydd a gyflwynwyd rhwng 1997 a 2009 o'r UE yn wreiddiol, ac roedd Cyfarwyddbau'r UE yn gyfrifol am 94 y cant o gost rheoliadau iechyd a diogelwch yn y DU rhwng 1998 a 2009.
9. Byddai llawer o'r gofynion sy'n dod o'r UE yn bodoli beth bynnag yn ôl pob tebyg, ac mae llawer ohonynt yn helpu i wella canlyniadau iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod lleiafrif ohonynt yn arwain at gostau diangen i fusnesau heb greu unrhyw fuddiannau amlwg.
10. Bu gwelliannau sylweddol dros y blynyddoedd diweddar o ran dull yr UE o ddatblygu cynigion deddfwriaethol, yn cynnwys gwelliannau drwy ei Agenda Rheoleiddio Gwell, Grŵp Stoiber a Bwrdd Asesu Effaith yr UE ymhlith eraill, ond mae lle i wneud mwy. Yn arbennig mae achos dros gryfhau rôl Asesiadau Effaith a'r Bwrdd Asesu Effaith er mwyn sicrhau bod argymhellion yn seiliedig ar wyddoniaeth gadarn a risg.

Felly argymhellaf fod y Llywodraeth yn cydweithio'n agosach â'r Comisiwn ac eraill, yn enwedig yn ystod yr adolygiad arfaethedig o ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch yr UE yn 2013, i sicrhau bod deddfwriaeth iechyd a diogelwch newydd a phresennol yr UE yn seiliedig ar risg a thystiolaeth.

11. Yn y cyfamser, mae angen mwy o dryloywder a thystiolaeth i gyd-fynd â'r cynigion a all ddeillio o gytundebau deialog cymdeithasol fel Cyfarwyddbau.
12. Bydd y newidiadau hyn yn cymryd cryn amser i'w cyflwyno, a byddant yn cael mwy o effaith ar lif rheoliadau newydd yn y dyfodol yn hytrach na'r rhai presennol. Felly rwyf hefyd wedi ystyried newidiadau y gellir eu gwneud yn y byrdymor i wella'r ffordd y caiff rheoliadau iechyd a diogelwch eu dehongli a'u cymhwyso ym Mhrydain Fawr.

Symleiddio'r fframwaith rheoleiddio

13. Yn fwy efallai nag unrhyw ofyniad rheoleiddio penodol, mae nifer y rheoliadau yn peri pryder mawr i lawer o fusnesau. Er bod llawer llai o reoliadau na 35 o flynyddoedd yn ôl, mae busnesau yn dal i deimlo bod yn rhaid iddynt ddygymod â gormod o reoliadau neu ddefnyddio ymgynghorwyr iechyd a diogelwch. Mae HSE eisoes wedi dechrau gweithio i gydgrynhoi rheoliadau ar ffrwydron gan ddiweddarau'r rheoliadau a'u gwneud yn haws i'w deall. Gellid cael budd tebyg o gydgrynhoi rheoliadau eraill sy'n benodol i sectorau.

Felly argymhellaf y dylai HSE roi rhaglen ar waith i gydgrynhoi rheoliadau sy'n benodol i sectorau i'w chwblhau erbyn mis Ebrill 2015.

14. Byddai hyn yn lleihau nifer y rheoliadau tua 35 y cant. Yn y cyfamser, dylai HSE gomisiynu gwaith ymchwil i ystyried y cyfleoedd i gydgrynhoi ymhellach y set graidd o reoliadau sy'n gymwys i'r rhan fwyaf o fusnesau.

Mynd i'r afael â phroblemau wrth gymhwyso rheoliadau

15. Er mai HSE yw'r corff rheoleiddio cenedlaethol sy'n gyfrifol am hybu iechyd a diogelwch gwell yn y gwaith ym Mhrydain Fawr, mae'n rhannu'r gwaith gorfodi yn achos y rhan fwyaf o weithleoedd ag awdurdodau lleol yn unol â Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Awdurdod Gorfodi) 1998
16. Ceir enghreifftiau amrywiol sy'n dangos sut mae'r ddau gorff yn cydweithio'n dda â'i gilydd, gan gydgyssylltu adnoddau a gwybodaeth i leihau nifer y marwolaethau, anafiadau ac achosion o salwch sy'n gysylltiedig â gwaith a gwella cysondeb o ran gorfodi. Er gwaethaf y gwelliannau sylweddol a wnaed, erys pryder bod anghysondeb yn y ffordd y caiff rheoliadau iechyd a diogelwch eu gweithredu ar draws awdurdodau lleol. At hynny, drwy beidio â gadael i unrhyw awdurdod gorfodi ystyried gweithleoedd y tu allan i'r ardal sydd o dan ei reolaeth, mae'r trefniadau rheoleiddio cyfredol yn creu rhwystr artifisial i'r dull mwyaf effeithlon o dargedu gweithgarwch gorfodi yn gyffredinol. Gall safleoedd yr ystyrir eu bod yn gymharol isel eu risg o blith y gweithleoedd a oruchwylir gan HSE (ac nad ydynt felly'n cael eu harolygu) fod â lefel uwch o risg na llawer o'r rhai sydd o dan reolaeth awdurdodau lleol, sy'n golygu bod awdurdodau lleol yn cynnal gormod o arolygiadau o weithleoedd sy'n gymharol isel eu risg.
17. Er mwyn sicrhau bod gwaith gorfodi yn gyson ac yn targedu risg, mae angen cael un corff i gyfeirio polisi gorfodi iechyd a diogelwch ymhob gweithle a reoleiddir ar hyn o bryd gan HSE ac awdurdodau lleol. Efallai y bydd trosglwyddo'r cyfrifoldeb i HSE yn arwain at golli synergedd â chyfrifoldebau gorfodi awdurdodau lleol eraill ond bydd yn sicrhau bod gweithgarwch yn annibynnol ar flaenoriaethau a phryderon lleol ac yn gwahaniaethu'n glir rhwng iechyd a diogelwch a materion rheoleiddio eraill fel diogelwch bwyd a diogelwch amgylcheddol. Bydd hyn yn ei dro yn rhoi mwy o sicrwydd a chysondeb i fusnesau.

Felly argymhellaf y dylid newid y ddeddfwriaeth i roi'r awdurdod i HSE gyfeirio holl weithgarwch arolygu a gorfodi iechyd a diogelwch awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau ei fod yn gyson ac yn targedu'r gweithleoedd sy'n peri'r risg fwyaf.

Y persbectif ehangach

18. Mae cyflogwyr hefyd yn wynebu'r posibilrwydd o gamau sifil gan gyflogeion neu eraill. Mae tystiolaeth i awgrymu y gall hyn, neu o leiaf y bygythiad o gael eu herlyn, fod yn ffactor allweddol i ysgogi deiliaid dyletswyddau i fynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol o dan y rheoliadau. Mae'r Llywodraeth eisoes yn cymryd camau i fynd i'r afael â llawer o'r pryderon sy'n gysylltiedig â'r 'diwylliant iawndal' ond rwyf wedi nodi dau fater arall sy'n gysylltiedig â rheoliadau iechyd a diogelwch y mae angen talu sylw iddynt hefyd, sef protocolau cyn-weithredu a rheoliadau sy'n gosod atebolrwydd caeth.
19. Roedd diben gwreiddiol y protocolau cyn-weithredu, sef cefnogi setliadau cynharach drwy sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn gynt ac yn fwy effeithiol rhwng partion, yn glodwiw ond mae tystiolaeth i ddangos nad yw'r rhestrau datgelu safonol cysylltiedig yn arbennig yn cael eu defnyddio'n briodol ac nad yw hawliadau'n cael eu hamddiffyn os nad yw'r holl waith papur ar gael. Caiff cyflogwyr eu cynghori hefyd i gadw nifer fawr o gofnodion rhag ofn y cânt eu dwyn i gyfraith. Mae hyn i gyd yn rhoi pwyslais ar greu gwaith papur ar gyfer pob risg bosibl.
20. At hynny, mae achosion lle dyfarnwyd iawndal i gyflogeion er bod y cyflogwyr wedi gwneud popeth sy'n rhesymol ymarferol a phopeth y gellid bod wedi'i ragweld. Y rheswm am hyn yw bod rheoliadau penodol yn gosod atebolrwydd caeth ar gyflogwyr sy'n eu gwneud yn gyfrifol yn ôl y gyfraith am y difrod a'r golled a achosir gan eu gweithredoedd a'u hepgoriadau p'un a ydynt ar fai ai peidio. Nid yw hyn fel pe bai'n gyson â'r cysyniad 'rhesymol ymarferol', ac nid yw'n amlwg beth oedd y bwriad ychwaith. O ganlyniad mae angen ailystyried y meysydd lle mae rheoliadau iechyd a diogelwch yn gosod atebolrwydd caeth.

Argymhellaf, felly, y dylid egluro ac ailbennu bwriad gwreiddiol rhestr datgelu safonol y protocol cyn-weithredu ac y dylid adolygu darpariaethau rheoleiddio sy'n gosod atebolrwydd caeth erbyn mis Mehefin 2013 ac y dylid naill ai eu hamodi gyda'r cymal 'rhesymol ymarferol' lle nad yw atebolrwydd caeth yn gwbl angenrheidiol neu eu diwygio fel nad yw torri'r darpariaethau hynny yn arwain at atebolrwydd sifil.
21. Yn ogystal mae angen cychwyn trafodaeth ynghylch risg yn y gymdeithas er mwyn sicrhau bod gan bawb ddealltwriaeth lawer gwell o risg a sut i'w rheoli.

Casgliad

22. Mae corff cyffredinol y gofynion a nodir mewn rheoliadau iechyd a diogelwch yn addas at y diben ar y cyfan ond mae rhai nad ydynt o fawr ddim budd i iechyd a diogelwch ac y dylai'r Llywodraeth gael gwared arnynt, eu hadolygu neu eu hegluro, yn enwedig y dyletswyddau ar gyfer pobl hunangyflogedig nad yw eu gweithgareddau gwaith yn peri unrhyw risg bosibl o niwed i eraill.
23. Y broblem fwy sylweddol o lawer sydd yn ein hwynebu yw bod gofynion rheoleiddio yn cael eu camddeall a'u cymhwyso'n amhriodol. Mae'r newidiadau a argymhellaf yn ceisio mynd i'r afael ag achosion o'r fath drwy:
 - a. symleiddio'r corff rheoliadau drwy eu cydgrynhoi;
 - b. ailgyfeirio gweithgarwch gorfodi tuag at fusnesau sy'n peri'r risg fwyaf o anaf neu salwch;
 - c. ail-gydbwyso'r system cyfiawnder sifil drwy egluro statws protocolau cyn-weithredu ac adolygu darpariaethau atebolrwydd caeth.
24. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pob elfen allweddol o'r system reoleiddio a chyfreithiol wedi'i thargedu'n well tuag at risg ac yn helpu i reoli iechyd a diogelwch yn briodol yn hytrach na chanolbwyntio ar geisio mynd i'r afael â phob risg bosibl a chronni gwaith papur.

Argymhellion

Mae fy adolygiad wedi gwneud nifer o argymhellion yn seiliedig ar risg a thystiolaeth a fydd yn lleihau'r gofynion hynny ar fusnesau nad ydynt yn gwella canlyniadau iechyd a diogelwch, neu'n cael gwared ar y pwysau ar fusnesau i fynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol o dan y rheoliadau, gan eu galluogi yn eu tro i adfer eu rheolaeth dros iechyd a diogelwch.

Hoffwn weld yr holl argymhellion hyn yn cael eu rhoi ar waith erbyn mis Ebrill 2015 ond rwyf wedi cynnwys rhai dyddiadau targed cynharach ar gyfer rhai ohonynt.

Argymhellion allweddol

- Dylai'r bobl hunangyflogedig hynny nad yw eu gweithgareddau gwaith yn peri unrhyw risg bosibl o niwed i eraill gael eu heithrio o gyfraith iechyd a diogelwch.
- Dylai HSE adolygu pob un o'i CYC. Dylid cwblhau cam cyntaf yr adolygiad erbyn mis Mehefin 2012 fel bod busnesau yn gwybod yn union beth sy'n cael ei gynllunio a phryd y gallant ddisgwyl unrhyw newidiadau.
- Dylai HSE roi rhaglen ar waith i gydgrynhoi rheoliadau sy'n benodol i sectorau i'w chwblhau erbyn mis Ebrill 2015.
- Dylid newid y ddeddfwriaeth i roi'r awdurdod i HSE gyfeirio holl weithgarwch arolygu a gorfodi iechyd a diogelwch awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau ei fod yn gyson ac yn targedu'r gweithleoedd sy'n peri'r risg fwyaf.
- Dylid egluro ac ailbennu bwriad gwreiddiol rhestr datgelu safonol y protocol cyn-weithredu a dylid adolygu darpariaethau rheoleiddio sy'n gosod atebolrwydd caeth erbyn mis Mehefin 2013 a dylid naill ai eu hamodi gyda'r cymal 'rhesymol ymarferol' lle nad yw atebolrwydd caeth yn gwbl angenrheidiol neu eu diwygio fel nad yw torri'r darpariaethau hynny yn arwain at atebolrwydd sifil.

Argymhellion allweddol

Yn ogystal â'r rhain, rwyf wedi gwneud nifer o argymhellion pellach i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gennyf.

Rheoliadau penodol

Er bod deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn addas at y diben yn gyffredinol rwyf wedi nodi rhai dyletswyddau sydd fel pe baent wedi arwain at gostau diangen i fusnesau heb gynnig fawr ddim budd. Dylai'r rhain gael eu diddymu, eu diwygio neu eu hegluro, yn amodol ar ymgynghoriad.

Argymhellaf y dylid diddymu'r rheoliadau canlynol:

- **Rheoliadau Hysbysu ynghylch Craeniau Tŵr 2010 a Rheoliadau Hysbysu ynghylch Craeniau Confensiynol Tŵr (Diwygio) 2010** – am nad oedd yr Asesiad Effaith wedi gallu nodi unrhyw fudd mesuradwy i ganlyniadau iechyd a diogelwch.
- **Rheoliadau Deddf Seliwloid a Ffilmiau Sinematograff 1922 (Eithriadau) 1980 a Rheoliadau Deddf Seliwloid a Ffilmiau Sinematograff 1922 (Diddymiadau ac Addasiadau) 1974** nad oes eu hangen mwyach i reoli risgiau iechyd a diogelwch.
- **Rheoliadau Adeiladu (Diogelu'r Pen) 1989** sy'n dyblygu cyfrifoldebau a nodir yn Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith 1992 a gyflwynwyd yn ddiweddarach.

Argymhellaf y dylid diwygio, egluro neu adolygu'r rheoliadau canlynol:

- Dylid diwygio **Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981** i ddileu'r gofyniad i HSE gymeradwyo hyfforddiant a chymwysterau personél cymorth cyntaf penodedig. Ymddengys mai ychydig o gyfiawnhad sydd i'r gofyniad hwn cyhyd â bod yr hyfforddiant yn cyrraedd safon benodol.
- Dylai **Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2007** a'r gwerthusiad CYC cysylltiedig gael eu cwblhau erbyn mis Ebrill 2012 i sicrhau bod dyletswyddau'n gliriach, bod llai o fiwrocratiaeth a bod canllawiau priodol ar gael i brosiectau bach.
- Dylid diwygio **Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995 (RIDDOR)** a'u canllawiau cysylltiedig erbyn diwedd 2013 er mwyn egluro i fusnesau sut i gydymffurfio â'r gofynion.
- Dylid egluro'r gofyniad i brofi offer cludadwy ymhellach (drwy newid geiriad **Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989** os oes angen, ymhlith pethau eraill) erbyn mis Ebrill 2012 er mwyn atal achosion o or-gydymffurfio a sicrhau bod y negeseuon hyn yn cyrraedd pob grŵp o randdeiliaid priodol.
- Dylid adolygu **Rheoliadau Gweithio ar Uchder 2005** a'r canllawiau cysylltiedig erbyn mis Ebrill 2013 i sicrhau nad ydynt yn peri i bobl wneud mwy na'r hyn sy'n gymesur neu wneud mwy na'r hyn y bwriadwyd i'r deddfwriaeth ei gwmpasu yn wreiddiol.

Egluro gofynion rheoleiddio

Yn ogystal â'r rhaglen cydgrynhoi sy'n benodol i sectorau, argymhellaf y dylai HSE wneud y canlynol:

- comisiynu gwaith ymchwil erbyn mis Ionawr 2012 i'w helpu i benderfynu a fyddai modd cydgrynhoi'r set graidd o reoliadau iechyd a diogelwch mewn ffordd a fyddai'n arwain at eglurder ac arbedion i fusnesau;
- ail-ddylunio'r wybodaeth ar ei wefan er mwyn gwahaniaethu rhwng y rheoliadau sy'n gosod dyletswyddau penodol ar fusnesau a'r rhai sy'n diffinio 'gofynion gweinyddol' neu'n diddymu/diwygio rheoliadau blaenorol;
- parhau i helpu busnesau i ddeall yr hyn sy'n 'rhesymol ymarferol' ar gyfer gweithgareddau penodol lle dengys y dystiolaeth bod angen mwy o gyngor arnynt i'w galluogi i gydymffurfio â'r gyfraith mewn ffordd gymesur.

Cymhwyso gofynion rheoleiddio

Yn ogystal â rhoi'r awdurdod i HSE gyfeirio gweithgarwch arolygu a gorfodi iechyd a diogelwch awdurdodau lleol, argymhellaf y canlynol hefyd:

- dylid penodi HSE yn Brif Awdurdod ar gyfer sefydliadau cenedlaethol sydd â sawl safle;
- dylai pawb dan sylw gydweithio gyda'r nod o roi cychwyn ar erlyniadau iechyd a diogelwch o fewn tair blynedd i ddigwyddiad.

Gwella dealltwriaeth ynghylch risg

Er mwyn ysgogi trafodaeth ehangach am risg yn y gymdeithas a sut y dylid ei rheoleiddio, argymhellaf y canlynol:

- dylid gwahodd Tŷ'r Arglwyddi i sefydlu Pwyllgor Dethol ar risg neu sefydlu is-bwyllgor i'r Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg er mwyn ystyried sut i gynnwys cymdeithas mewn trafodaeth am risg;
- yn gyfochrog â hyn, dylai'r Llywodraeth ofyn i'r Prif Gynghorydd Gwyddonol gynnull grŵp arbenigol gyda'r nod o fynd i'r afael â'r un her. Mae angen lledaenu canlyniadau gwaith o'r fath yn eang yn y Senedd ac ymhlith llunwyr polisïau, academyddion a'r cyhoedd.

Argymhellion ar ymgysylltu ag Ewrop

Fy argymhelliad cyffredinol yw y dylai'r Llywodraeth gydweithio'n agosach â'r Comisiwn ac eraill, yn enwedig yn ystod yr adolygiad arfaethedig yn 2013, er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth iechyd a diogelwch newydd a phresennol yr UE yn seiliedig ar risg a thystiolaeth. Yn ogystal â gweithio gyda'r UE ar gynigion neu ddiwygiadau rheoleiddio penodol, argymhellaf y canlynol:

- dylid cynnal asesiad effaith rheoleiddiol yn awtomatig mewn perthynas â phob Cyfarwyddeb a rheoliad arfaethedig (a diwygiadau iddynt) yr ystyrir eu bod yn costio mwy na 100 miliwn Ewro i gymdeithas;
- dylai'r rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu'r Asesiadau Effaith fod yn wahanol i'r rhai sydd wedi drafftio'r Cyfarwyddbau neu'r rheoliadau;
- dylid cyflwyno prosesau adolygu cryfach ymhlith cymheiriaid drwy gryfhau Bwrdd Asesu Effaith yr UE a sicrhau ei fod yn fwy annibynnol, neu dylid sefydlu corff trosolwg rheoleiddio ar wahân sy'n annibynnol ac yn rymus ac sydd wedi'i fodelu ar Swyddfa Gwybodaeth a Materion Rheoleiddio (OIRA) yr UD o fewn y Swyddfa Rheoli a Chyllideb (OMB). Dylai'r corff hwn fod yn rhan o'r Ysgrifenyddiaeth gyffredinol a byddai angen dyrannu adnoddau priodol iddo.

Argymhellaf y canlynol hefyd:

- dylid sefydlu Pwyllgor Seneddol Ewropeaidd i ystyried ffyrdd o lunio polisiau seiliedig ar risg a allai helpu rheoleiddwyr a llunwyr polisiau'r UE i reoleiddio ar sail risg a thystiolaeth wyddonol;
- dylai Llywodraeth y DU weithio gyda'r Comisiwn i gyflwyno mwy o eglurder a chodi ymwybyddiaeth ynghylch cytundebau partneriaid cymdeithasol, a sicrhau y cynhelir Asesiadau Effaith ar gyfer cytundebau cyn iddynt gael eu mabwysiadu fel Cyfarwyddeb.

ISBN 978-1-84947-920-2

(h) Hawlfraint y Goron 2011
Cyhoeddwyd gan yr Adran
Gwaith a Phensiynau
Tachwedd 2011

www.dwp.gov.uk/cymraeg